



Amcan Llesiant 7

Byw'n Dda - Cynyddu faint o dai rhent a thai fforddiadwy sydd ar gael

Dyma ein hymrwymiadau a'n sylwadau cynnydd ar ddiwedd y flwyddyn ar gyfer yr Amcan Llesiant hwn yn ystod 2017/18.

Ymrwymiadau'r Llynedd	✓ ✗	Sylw ar Gynnydd
A - Cynllun Darparu Tai Fforddiadwy		
Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi fforddiadwy yn Sir Gaerfyrddin. <i>(Cam gweithredu rhif 12593)</i>	✓	2017/18 yw ein hail flwyddyn o ddarparu tai fforddiadwy. Eleni rydym wedi llwyddo i ddarparu 235 o dai ychwanegol drwy ystod o atebion gan gynnwys dod â thai gwag yn ôl i ddefnydd, gosod tai cymdeithasol, prynu tai o'r sector preifat, trwy gyfraniadau datblygwyr ac Adran 106 a thrwy weithio mewn partneriaeth â'n partneriaid yn y cymdeithasau tai i ddatblygu tai newydd.
Byddwn yn cynyddu nifer y tai fforddiadwy yn y sir drwy ddarparu'r cynllun tai fforddiadwy <i>(7.3.2.24)</i> <i>(Canlyniad 2016/17- 173/ targed 2017/18 - 225)</i> <i>(Targedau'r Dyfodol -18/19 - 236, 19/20 - 210, 20/21 - 196).</i>	✓	Mae 235 o gartrefi fforddiadwy ychwanegol wedi cael eu codi yn ystod 2017/18.
Byddwn yn cynyddu nifer yr eiddo ychwanegol newydd sy'n cael eu rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol. <i>(7.3.2.25)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 – 32 / targed 2017/18 - 54)</i>	✓	Yn ystod 2017/2018 fe wnaethom ychwanegu 63 eiddo ychwanegol newydd , i'w rheoli gan ein hasiantaeth gosod tai cymdeithasol fewnol.
Byddwn yn cynyddu % yr eiddo preifat gwag sy'n cael eu defnyddio unwaith eto <i>(PAM/013)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 6.53% -174 o breswylfeydd / Targed 2017/18 – 6.75% - 180 o breswylfeydd)</i> <i>Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy'n unig.</i>	✓	Sicrhau bod 184 eiddo gwag preifat (6.90%) yn cael eu defnyddio unwaith yn rhagor yn ystod 2017/2018.
Byddwn yn cynyddu nifer y cartrefi newydd a grëir o ganlyniad i ailddechrau defnyddio eiddo gwag <i>(PAM/014)</i> <i>(Canlyniad 2016/17 - 5 preswylfeydd ychwanegol / Targed 2017/18 - 10 preswylfa ychwanegol)</i> <i>Mae'r mesurau hyn yn cynnwys yr holl eiddo oedd yn wag o'r blaen ac nid tai fforddiadwy yn unig.</i>	✗	Cafodd 5 preswylfa ychwanegol eu creu yn ystod 2017/18 o ganlyniad i ailddechrau defnyddio eiddo gwag. Mae'r mesur newydd hwn yn nwylo Perchnogion eiddo gwag a'r tebygolrwydd y byddant yn ceisio cydsyniad ar gyfer troi preswylfeydd gweigion yn fflatiau. Roedd yr amcanestyniad a gyflwynwyd yn destun cynllun penodol yn Llanelli, a gefnogwyd dan gynllun Troi Tai'n Gartrefi. Yn anffodus, mae'r datblygwr hwn wedi neilltuo ei adnoddau i brosiectau eraill, ac wedi methu â'u cwblhau.